# Cenn@d

RHAGFYR 28 2022 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 96


## Rhywbeth ar gyfer y 'plant' yw'r Nadolig

'Rhywbeth i blant yw'r Nadolig!' Do, clywais hynny'n cael ei ddweud droeon gan ambell surbwch ar hyd y blynyddoedd, yn gyfiawnhad dros beidio â gwneud unrhyw ymdrech i ymgolli yn hud a lledrith yr ŵyl ryfeddol hon. Bob tro, byddwn yn ymateb gan ddweud bod y Nadolig yn achlysur o bwys i bawb, ac yn gyfle i ddathlu a diolch.

Ond, eleni, mae'n debyg mai clywed sŵn a bwrlwm y plant unwaith yn rhagor fydd yn aros yn y cof ac yn goron ar y dathliadau. Dyma rannu â chi dri llun o'm gofalaeth i, Gofalaeth Chwilog, Pencaenewydd, Llwyndyrys, Tyddyn Shôn, a Chapel y Beirdd yn ardal Dwyfor.

Yn rhifyn dechrau Ionawr o *Cenn@d*, rydyn ni'n gobeithio rhannu llawer iawn mwy o luniau â chi o bob cornel o Gymru. Beth am anfon eich lluniau chi atom, gan wneud hynny cyn diwedd y flwyddyn, os gwelwch yn dda, fel ein bod yn gallu llenwi sawl tudalen â lluniau'r plant yn dathlu'r Nadolig?

Am y tro cyntaf mewn tair blynedd llwyddwyd i gynnal tri gwasanaeth yn cynnwys Drama'r Geni yn yr ofalaeth hon. Cafwyd sawl te parti efo ymweliad gan Siôn Corn, gwasanaeth carolau yng nghwmni plant yr ysgol leol a chyfle i ganu carolau o gwmpas y pentref. Er gwaethaf pob ymdrech dros y ddwy flynedd ddiwethaf i ffilmio oedfaon, postio anrhegion ac anfon bwyd parti mewn bocs, a chydfwyta ar Zoom, roedd rhywbeth yn chwithig yn y dathliadau ynysig hynny. Wrth fodio drwy dudalennau ar Facebook nos Sul diwethaf, cysur mawr oedd gweld lluniau lliwgar o olygfeydd y Geni ac ambell ymddangosiad gan Siôn Corn mewn capeli ar hyd a lled Cymru. Ie, heb os, mae'r Nadolig yn gyfnod pan fyddwn ni'n cael pleser a boddhad o weld wynebau'r plant yn ymateb i ryfeddod yr ŵyl. Diolch am bob un plentyn sy'n rhan o fywyd a gweithgarwch ein heglwysi.



Gwasanaeth Nadolig Chwilog

### Tu hwnt i'r Nadolig?

Ond cofiwn yr un pryd nad 'rhywbeth ar gyfer y Dolig yn unig' yw plant. Gwn am rai capeli aeth allan i chwilio am blant er mwyn cynnal oedfa yn eu cwmni dros y Nadolig, ond nad oes unrhyw ddarpariaeth arall yno ar eu cyfer gweddill y flwyddyn. Os llwyddwyd i gynnull y plant ynghyd eleni, beth am adeiladu ar hynny yn y flwyddyn newydd gan geisio adfer sawl ysgol Sul a ddiflannodd dros gyfnod y pandemig? Diolch am ymdrech sawl capel i geisio cynnal rhywbeth yng nghwmni'r plant a'r ieuenctid yn ystod yr wythnosau diwethaf. Ond cofiwn fod cyfrifoldeb pellach arnom i ofalu am eu lles ysbrydol gydol y flwyddyn, ac nad ydynt yno er mwyn ein diddanu ni adeg y Nadolig yn unig.



Gwasanaeth Nadolig Pencaenewydd

### Gŵyl i BAWB yw Gŵyl y Nadolig

Ond, a mynd yn ôl at bennawd yr erthygl. Newyddion da efengyl Iesu yw fod arwyddocâd geni Iesu ar gyfer pawb yn ddiwahân. Oes, mae 'na lawer o draddodiadau Nadoligaidd sydd yno ar gyfer y plant, o groesawu Siôn Corn i ddeffro'n blygeiniol o gynnar i agor yr anrhegion.

Ac yn hanes y Nadolig cyntaf hwnnw ym Methlehem, plentyn ifanc yw canolbwynt yr holl gyffro. Ond os mai plentyn sy'n ganolog i'r hanes, does dim byd yn blentynnaidd am yr ŵyl. Mae'r Adfent a'r Nadolig yn gyfle i blant o bob oed, ac i bob plentyn sydd wedi tyfu i fyny i ymgolli yn y gobaith a'r goleuni a ddaeth i'r byd ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Yng ngeiriau Eseia, 'Achos mae plentyn wedi cael ei eni i ni, mab wedi cael ei roi i ni. Bydd e'n cael y cyfrifoldeb o lywodraethu. A bydd yn cael ei alw yn Strategydd rhyfeddol, y Duw arwrol, Tad yr oesoedd, Tywysog heddwch'. Ac mae hynny'n gwneud y Nadolig yn ŵyl i bawb yn ddiwahân.

*Aled Davies*



Plant Ysgol Sul capel Llwyndyrys gyda Siôn Corn


O 'Elltydd Melindwr' i Sŵn y Jiwbili
Dathlu daucanmlwyddiant geni Ieuan Gwyllt
**Tudalen 2**

Cyfrifiad '21 – creisis ynteu calondid?
**Tudalen 6**

Ffydd a Diwylliant
Yr anghynefin yn ein cynefin
**Tudalen 7**